HM Government

# Datganiad Preifatrwydd Dweud Wrthym Unwaith

Mae'r gwasanaeth hwn yn ymrwymedig i sicrhau fod eich preifatrwydd wedi ei ddiogelu a gallwch fod yn sicr y bydd unrhyw wybodaeth fyddwch yn rhoi yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r Datganiad Preifatrwydd hwn. Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut y byddwn yn defnyddio a diogelu unrhyw wybodaeth fyddwch yn rhoi i ni pan fyddwch yn defnyddio'r gwasanaeth hwn.

## Y Gwasanaeth hwn

Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ran y Llywodraeth. Gellir cael hyd i'r Polisi Preifatrwydd llawn ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau ar y rhyngrwyd yn http://www.dwp.gov.uk/privacy-policy/

## Y Ddeddf Diogelu Data

Yr Adran Gwaith a Phensiynau yw'r Rheolwr Data ar gyfer y gwasanaeth hwn o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i ddiogelu unrhyw wybodaeth rydym yn casglu gennych chi a byddwn ond yn prosesu gwybodaeth yn unol â'r Ddeddf hon.

Rydym wedi sicrhau fod y gwasanaeth hwn yn cyfarfod holl safonau diogelwch y llywodraeth i atal unrhyw fynediad heb awdurdod i'r wybodaeth fyddwch yn rhoi i ni.

## Pa wybodaeth fyddwn yn casglu?

Byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol amdanoch chi: fel eich enw, cyfeiriad ac am bobl eraill sy'n cael ei heffeithio gan y newid fel bod y sefydliadau yn gallu cymryd unrhyw gamau dilynol maent eu hangen. Byddwn ond yn gofyn i chi am wybodaeth sydd ei angen gan y sefydliadau hynny, a byddwn ond yn pasio ymlaen y wybodaeth sydd ei angen gan bob sefydliad.

Gofynnir i chi gytuno i rannu'r wybodaeth hwn gyda sefydliadau eraill. Os ydych yn rhoi gwybodaeth ar ran rhywun arall gofynnir i chi hefyd os oes gennych eu cytundeb i wneud hynny.

Cyn i'r wybodaeth gael ei anfon byddwch yn cael cyfle i'w wirio a gweld i bwy y bydd yn cael ei rannu gyda.

## Sefydliadau eraill fydd yn derbyn eich gwybodaeth

Mae gan sefydliadau fydd yn derbyn y wybodaeth rydych yn ei roi eu polisïau preifatrwydd eu hunain sy'n cydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Gellir cael mynediad i'w polisïau hefyd drwy'r Rhyngrwyd. Byddwn yn hapus i'ch helpu i leoli a darllen y rhain, os gofynnwch i ni.

Mae cytundebau ffurfiol mewn lle hefyd rhwng pob un o'r sefydliadau hyn ac Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r rhain yn disgrifio'n fwy manwl sut mae eich gwybodaeth yn cael ei drin yn gyfrinachol.

Dyma esiamplau o sefydliadau eraill all gael eu hysbysu o'r newidiadau a sut y gall y wybodaeth rydych yn rhoi cael ei ddefnyddio ganddynt:

*Ar gyfer hysbysiadau marwolaeth*

- Gall Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau ddefnyddio gwybodaeth yr ymadawedig i gau eu cofnod trwydded yrru,
- Gall Timau Budd-daliadau Tai a Threth Cyngor Awdurdod Lleol ddefnyddio gwybodaeth yr ymadawedig i gau eu ceisiadau i fudd-dal i lawr, ac mewn rhai achosion, ystyried pwy arall efallai fyddai'n gymwys yn y cartref.

*Ar gyfer hysbysiadau geni*

- Gall Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ddefnyddio'r wybodaeth genedigaeth i brosesu ceisiadau i Gredyd Treth Gwaith a Budd-dal Plant.
- Gall Gwasanaethau Llyfrgell ddefnyddio gwybodaeth ar enedigaethau i roi gwybodaeth ar wasanaethau ychwanegol ar gael i blant cyn oed ysgol.

## Pethau eraill efallai byddwn yn wneud gyda'ch gwybodaeth

O dro i dro efallai byddwn, gyda'ch caniatâd chi, yn cysylltu â chi un ai drwy ffonio neu'n ysgrifenedig i ofyn eich barn o'r gwasanaeth rydych wedi ei dderbyn.

Gall y wybodaeth rydych wedi ei roi i ni gael ei ddefnyddio ar gyfer gwybodaeth ystadegol a fydd yn ein helpu i wella'r gwasanaeth. Ni fydd y wybodaeth ystadegol yn cynnwys unrhyw o'ch manylion personol.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer rhesymau marchnata neu'n pasio'r wybodaeth i unrhyw drydydd parti sydd ddim yn rhan benodol o'r gwasanaeth hwn.

## Mynediad I'ch gwybodaeth a chysylltu â ni

Os ydych eisiau gofyn i ni ynglŷn â'ch gwybodaeth, neu os oes gennych ymholiad neu gŵyn ynglŷn â'r polisi preifatrwydd hwn, gallwch gysylltu â ni drwy ffonio ar 0800 085 7308.

## Newidiadau I'r polisi preifatrwydd hwn

Os bydd y polisi preifatrwydd hwn yn newid mewn unrhyw ffordd, byddwn yn diweddaru'r datganiad hwn i'w gwneud yn eglur ynglŷn â pha wybodaeth rydym yn casglu, sut rydym yn ei ddefnyddio ac o dan ba amgylchiadau y bydd yn cael ei rannu.